





# Enw'r ynys




dy enw di

Hawlfraint: Cyngor Gwynedd 2022

# Ynys yr enwau




## Dyma ynys sydd yn llawn o hanesion ond does ganddi ddim enw!

**Dy waith di fydd dewis enw iddi ynghyd ag enw i unrhyw 9 lle ar yr ynys. I dy helpu dyma ychydig o wybodaeth am lle:**

> **Cychwyn wrth dy draed!**
> Mae nifer o gliwiau a syniadau da am enwau addas i'w cael o hanes neu bethau daearyddol. Efallai bod aderyn neu anifail neu blanhigyn yn cynnig enw? Neu hanes un o'r bobl fu'n byw ar yr ynys?

Yn 1765 suddodd llong o'r enw 'Yr Helen' oddi ar ogledd yr ynys. Collodd 20 o ddynion ifanc eu bywydau yn y llongddrylliad.

Ben bore, mae'r Tylwyth Teg i'w gweld ar y traeth sydd ar orllewin yr ynys - meddan nhw!

Mae pobl wedi pysgota gormod yn y llyn dros y blynyddoedd ac nid oes unrhyw bysgod yn byw ynddo bellach.

O amgylch y llyn mae cors – tir gwlyb sy'n gartref i lawer o flodau a phlanhigion gwyllt.

Ar draethau de'r ynys mae llawer o wymon yn hel ar ôl stormydd. Yma hefyd gwelir cregyn melyn a choch ym mhob man.

Mae hen blas mawr ar orllewin yr ynys lle roedd Mr Edward Allan Hearts yn byw. Daeth yma i fyw o Texas, America yn y 1980au gyda'r arian a gasglodd drwy werthu olew.

Mae'r ynys tua 100 milltir o unrhyw dir, ac i'r de-orllewin o'r ynys mae dwy ynys fach gyda goleudy ar un ohonynt.

Yng nghanol yr ynys mae coedwig fechan lle mae pob math o adar ac anifeiliaid gwyllt yn byw. Mae'n lle dychrynllyd yn y nos felly does fawr o neb yn mynd yno!

Enw'r Sant sydd a gododd eglwys ar yr ynys, yn y flwyddyn, 545 oedd Clodfawr.

Mae pysgotwyr lleol yn dal mecryll, penwaig a phenfras yn y môr oddi ar grieigiau gogledd yr ynys.

Mae traethau glân ar arfordir de'r ynys a chreigiau a chlogwyni ar yr arfordir gogleddol ble mae cannoedd o adar fel gwylanod a pâl yn byw.

Weithiau, ar dywydd braf yn yr haf, gwelir dolffiniaid yn neidio yn y môr.

Yn y gaeaf mae'r gwynt cryf a stormydd o'r de yn curo'r creigiau a'r traethau.


> **Trysor!**
> Oes trysor yn rhywle ar yr ynys?
> Beth yw'r trysor gwerthfawr? Ble mae o?

Hawlfraint Cyngor Gwynedd 2022

**Dyma'r symbolau sy'n ymddangos ar y map:**

| | | |
|---|---|---|
| Llongddrylliad | Coedwig | Adeilad |
| Eglwys | Llyn/pwll | Traeth |
| Llwybr troed | Ffordd/lôn | Goleudy |
| Clogwyn serth | Cors/tir gwlyb | Afon |

**Ar y map mawr rho enw i'r ynys yn y blwch ar y top. Yna, gwna gylch mewn 9 lle a rho rif ym mhob cylch fel hyn. Yn y blychau isod, rho dy enwau di i'r 9 lle.**




| | |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | Clogwyn Plas |
| 4 | |
| 5 | |
| 6 | |
| 7 | |
| 8 | |
| 9 | |
| 10 | |